OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1628

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion", a hepgorer "UE" yn yr ail le y mae'n digwydd.

(3) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r geiriau o "rhestrau" hyd at "yr UE", rhodder "Rhan A o Atodiad 11, neu Atodiad 12, i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau gwarchod rhag plâu planhigion";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle'r diffiniad o "pla planhigion a reolir" rhodder—

"ystyr "pla planhigion a reolir" yw pla cwarantin Prydain Fawr, pla cwarantin Prydain Fawr dros dro, pla cwarantin PFA, neu bla Prydain Fawr a reoleiddir nad yw'n destun cwarantin;";

(ii) hepgorer is-baragraff (aba).

(4) Yn rheoliad 4(6)(a), ar ôl "pasbortau planhigion" mewnosoder "y DU".

(5) Yn rheoliad 5A(5), yn y diffiniad o "gwasanaeth cyn-allforio"—

(a) hepgorer "i drydedd wlad";

(b) yn lle "gofynion ffytoiechydol y drydedd wlad" rhodder "gofynion mewnforio ffytoiechydol perthnasol o fewn ystyr Erthygl 99a o'r Rheoliad Iechyd Planhigion".

(6) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y geiriau o ", at" hyd at "Penderfyniad,";

(b) hepgorer paragraff (2).

(7) Hepgorer rheoliad 6A.

(**1**) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac O.S. 2020/69 (Cy. 10); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(8) Yn Atodlen 2, yn y tabl, hepgorer y cofnodion yn y golofn gyntaf, yr ail golofn a'r drydedd golofn sy'n ymwneud â *Citrus, Mangifera* a *Passiflora.*